Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes

Amserlen ar gyfer ystyried: Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Hydref 2022

Ar 26 Medi 2022, cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn y Senedd.

Ar 20 Medi 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil i'r Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig i ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 4 Hydref 2022, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, ar amserlen ar gyfer gwaith y Pwyllgor o ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil, gan gytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 27 Ionawr 2023.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 21 Ebrill 2023, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.